OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 No. 1645

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020

RHAN 3

Diwygiadau i Ran 3 o'r Rheoliadau Cyfyngiadau

4.—(1) Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 11 mewnosoder—

"**Gofyniad i ynysu: darpariaeth benodol ar gyfer pobl sydd wedi bod yn Ne Affrica**

11A.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yng Nghymru am 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020,

(b) wedi cyrraedd Cymru o fewn y cyfnod o 10 o ddiwrnodau sy'n dod i ben yn union cyn 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020, ac

(c) wedi bod yn Ne Affrica o fewn y cyfnod hwnnw.

(2) Oni bai fod rheoliad 11B yn gymwys ni chaiff P, nac unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P, adael y man lle maent yn byw, neu fod y tu allan iddo, tan ddiwedd y cyfnod o 10 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y gadawodd P De Affrica.

(3) Os yw swyddog olrhain cysylltiadau yn gofyn am hynny, rhaid i P hysbysu'r swyddog—

(a) am enw pob person sy'n byw yn y man lle y mae P yn byw, a

(b) am gyfeiriad y man hwnnw."

Gofyniad i ynysu: eithriad penodol ar gyfer pobl sydd wedi bod yn Ne Affrica

11B.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo'n ofynnol i berson beidio ag ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw, neu fod y tu allan iddo, yn rhinwedd rheoliad 11A(2).

(2) Caiff y person ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw a bod y tu allan iddo—

(a) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;

(b) os yw cwnstabl yn dweud fod yn rhaid gwneud hynny;

(c) er mwyn osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol."

(3) Yn rheoliad 12, ynlle "neu 9(2)" rhodder ", 9(2) neu 11A(2)".

(4) Yn rheoliad 14(2), ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) pan fo'n ofynnol i berson ynysu yn unol â rheoliad 11A(2), gwybodaeth gyswllt a dyddiad geni'r person, neu, pan fo'r person yn blentyn, manylion cyswllt yr oedolyn a hysbysir ei bod yn ofynnol i'r plentyn ynysu a dyddiad geni'r plenty."

(5) Yn rheoliad 22(4)(a), ynlle "neu 9(2)" rhodder ", 9(2) neu 11A(2)".

(6) Yn rheoliad 30, ynlle “neu 9(2)” rhodder “, 9(2) neu 11A(2)” ynlle “neu 9(2)” rhodder “, 9(2) neu 11A(2)”.

(7) Yn rheoliad 40—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl “9(2),” mewnosoder “11A(2)”;

(ii) yn is-baragraff (b), ynlle “neu 9(3)” rhodder “, 9(3) neu 11A(3)”;

(b) ym mharagraff (2)(a), ynlle “neu 9(3)” rhodder “, 9(3) neu 11A(3)”.